# Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Hafren Dyfrdwy 2020

**Paratowyd gan y tîm Dulliau Rheoleiddio Dŵr, Tir, Bioamrywiaeth a'r Môr**

# Cyflwyniad

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr er mwyn lleihau'r effaith y mae eu hasedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau, a chyflawni cynlluniau gwella'r amgylchedd. Rydym wedyn yn cyhoeddi asesiad blynyddol o'u perfformiad.

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy[1] ar 1 Gorffennaf 2018, gan ffurfio cwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfan gwbl o fewn ffin wleidyddol Cymru. Cafodd yr holl[2] asedau a oedd yn berchen i Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yng Nghymru yn flaenorol, ac a oedd yn cael eu rheoli ganddynt, eu trosglwyddo i Hafren Dyfrdwy. Er mwyn parhau amlder adrodd, ac er mwyn helpu gyda chymariaethau o un flwyddyn i'r llall, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio cyfuniad o ddata Hafren Dyfrdwy a data cyfatebol gan Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy o'r ardal weithredol y mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol amdani bellach. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad amgylcheddol Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2020. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Dŵr Cymru, y gallwch ei weld ar ein gwefan.

Nid yw metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a ddefnyddir ar gyfer y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn berthnasol i Hafren Dyfrdwy. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio themâu tebyg, er enghraifft digwyddiadau llygredd a chydymffurfiaeth â thrwyddedau.

[1] Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: HAFREN DYFRDWY CYFYNGEDIG, rhif cwmni 0352762, cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Packsaddle, Ffordd Wrecsam, Rhostyllen, Wrecsam, Clwyd, LL14 4EH.

[2] Yr unig eithriad yw gwaith trin dŵr Cwm Elan, a fydd yn parhau i fod yn eiddo i Severn Trent Water ac yn cael ei reoli ganddo er ei fod wedi'i leoli yng Nghymru. Bydd CNC yn rheoleiddio'r safle hwn ac yn darparu data perfformiad amgylcheddol i Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y gellir ei gynnwys yn adroddiadau Severn Trent Water.

# Prif negeseuon ar berfformiad

Roedd 2020 yn flwyddyn enwedig o heriol yn sgil pandemig y coronafeirws gyda'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn newid y ffordd yr ydym yn byw a gweithio yn sylweddol. Fodd bynnag, gwnaeth y cwmni a'r rheoleiddwyr gynnal y gallu i fonitro asedau ac ymateb i ddigwyddiadau llygredd. Gwelwyd 2020 y dechrau sychaf i'r gwanwyn yng Nghymru (Ebrill a Mai) ers i gofnodion ddechrau yn 1910, a oedd yn cyd-daro â dechrau'r cyfyngiadau symud, gan gynyddu'r galw am ddefnydd dŵr domestig yn sylweddol. Cynhaliom gysylltiad da â chwmnïau dŵr wrth i gyfyngiadau'r pandemig gael eu diweddaru i sicrhau nad oedd effeithiau'r pandemig yn y tymor byr a'r tymor hir yn effeithio ar y gweithlu a rhaglenni gwaith.

Yn 2020, gwnaeth Hafren Dyfrdwy y canlynol:

- gwella ei berfformiad hunanadrodd, gyda 100% o ddigwyddiadau yn cael eu hunanadrodd
- parhau i berfformio'n dda o safbwynt digwyddiadau llygredd difrifol gan nad oedd unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol
- cydymffurfio 100% ag amodau ei drwyddedau gollwng dŵr rhifol
- gwella cydymffurfiaeth ag amodau disgrifiadol
- cael sgôr mynegai diogelwch cyflenwad o 100
- cyflenwi 100% o'i gynlluniau ar gyfer Cynllunio Rheoli Asedau 7 (AMP7) y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Ond mae angen gwella yn y meysydd hyn:

- cyfanswm nifer y digwyddiadau llygredd, gan iddynt gynyddu yn 2020, gyda chwech o ddigwyddiadau llygredd (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr wedi'u cyfuno)
- cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr.

# Digwyddiadau llygredd

Fel rheoleiddiwr, rydym yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llygredd, a daw rhai o'r rhain o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt. Diben hyn yw hybu gostyngiad parhaus yn nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o leihau digwyddiadau i sero. Nid ydym yn disgwyl unrhyw ddigwyddiadau difrifol (Uchel).


Fel y dangosir yn y graff dros y dudalen, cafodd Hafren Dyfrdwy berfformiad amrywiol yn 2020 ar gyfer digwyddiadau llygredd. Ni chafodd y cwmni:

- unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol (Uchel); a

- chafodd lai o ddigwyddiadau o asedau cyflenwad dŵr – un yn 2020, o'i gymharu â dau yn 2019. Yn 2020, roedd y digwyddiad unigol o'r rhwydwaith dosbarthu dŵr ac fe'i cafodd effaith amgylcheddol Isel (Categori 3); ond

- gwelodd gynnydd yn nifer y digwyddiadau carthffosiaeth – pump yn 2020, o'u cymharu â dau yn 2019. Yn 2020, roedd dau o weithfeydd trin carthion, un o orlif

carthion cyfun trwyddedig, a dau o garthffos fudr; cafodd y pump ohonynt i gyd effaith amgylcheddol Isel (Categori 3).




# Digwyddiadau hunanadrodd

Hoffem weld yr holl gwmnïau dŵr yn hunanadrodd[3] o leiaf 80% o'u digwyddiadau llygredd. Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:

- deall ei asedau a'i rwydweithiau'n well
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella lefelau hunanadrodd
- defnyddio ei ddata i nodi mannau peryglus a thargedu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau
- rhoi sylw ac ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl

Mae'n gadarnhaol gweld bod perfformiad hunanadrodd Hafren Dyfrdwy wedi dychwelyd i 100% (chwech allan o chwech wedi hunanadrodd) ar ôl gostwng i 50% yn 2019. Rydym yn disgwyl i'r cwmni gynnal y lefel uchel hon o hunanadrodd yn 2021 ac rydym yn annog y cwmni i ystyried mentrau eraill a ddefnyddir ar draws y diwydiant er mwyn sefydlogi ei berfformiad yn y maes hwn.

[3] I adrodd digwyddiad i ni, ffoniwch ein Llinell Gymorth Digwyddiadau ar 03000 65 3000.

# Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Rydym yn rhoi trwyddedau ar gyfer gollwng dŵr, gan gynnwys gollyngiadau sydd wedi'u trin o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunan-fonitro eu gollyngiadau ac yn darparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfiaeth. Rydym yn disgwyl cydymffurfiaeth â holl amodau'r drwydded.

Roedd holl weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr Hafren Dyfrdwy yn cydymffurfio â'u terfynau trwydded rhifol yn 2020. Mae'n galonogol gweld lefelau uchel a chyson o gydymffurfiaeth rifol, sef 100% ers 2017, gan fod hyn yn dangos bod Hafren Dyfrdwy yn rheoli ei 39 o weithfeydd trin carthion rhifol a'i chwe gwaith trin dŵr rhifol yn dda.

## Cydymffurfio ag amodau trwydded disgrifiadol gollyngiadau dŵr

Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol fel cynnal a chadw, rheoli ac adrodd.

Yn gyffredinol, mae cydymffurfio ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr sydd â thrwyddedau disgrifiadol yn 96.7% yn 2020. Gwelwyd dau achos o ddiffyg cydymffurfio o ran gollyngiadau mewn cyfanswm o 60 o ollyngiadau. O'r ddau achos o ddiffyg cydymffurfio o ran gollyngiadau, gwnaethom nodi un achos o dorri amodau yn y categori CCS3 a phedwar achos o dorri amodau yn y categori CCS4.[4]

Mae'n gadarnhaol gweld gwelliant yn y perfformiad o ran amodau disgrifiadol yn 2020, o gymharu â 2019, pan oedd cydymffurfiaeth perfformiad yn 93%. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant parhaus mewn perfformiad wrth gydymffurfio ag amodau trwydded disgrifiadol.

Canfuom un gorlif carthion cyfun ar safle trwyddedig hefyd nad oedd yn cydymffurfio â'r amodau ar ei drwydded (CCS4).

[3] Categorïau diffyg cydymffurfio yw'r ffordd rydym yn categoreiddio achosion o dorri amodau trwyddedau. Maen nhw ar raddfa rhwng 1 a 4:

- CCS1 – Difrifol: posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith fawr, ddifrifol, barhaus a/neu helaeth ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo
- CCS2 – Sylweddol: posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo
- CCS3 – Mân: posibilrwydd o gael mân ddylanwad neu effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo, neu ddylanwad neu effaith fach
- CCS4 – Dim effaith: achos o ddiffyg cydymffurfio ar safle rheoledig lle nad oes modd rhagweld y bydd yn cael unrhyw ddylanwad ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo

## Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin carthion

Roedd tri safle yn mynd y tu hwnt i’r terfyn Llif Tywydd Sych a ganiateir, a olygir iddynt dderbyn mwy o garthion na'r hyn a ganiateir. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cael adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer safleoedd sy'n mynd y tu hwnt i’r hyn a ganiateir.

Mae Hafren Dyfrdwy hefyd yn parhau i ymchwilio i unrhyw safleoedd y mae'n ystyried eu bod mewn perygl o fethu terfynau llif i driniaeth lawn eu trwyddedau, sy'n golygu efallai nad ydynt yn trin swm y llif sy'n ofynnol o dan eu trwyddedau.

Mae pob safle bellach yn cydymffurfio â gofynion ail-ardystio MCERTS.

## Gorlifoedd stormydd

Rydym yn asesu'r data ac yn parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddiol tuag at orlifoedd stormydd. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r cwmnïau dŵr i leihau nifer y gollyngiadau o orlifoedd stormydd a chasglu tystiolaeth ar gyfer effaith amgylcheddol gorlifoedd stormydd, ynghyd â sicrhau trwyddedau rheoleiddiol cadarn a gofynion adrodd er mwyn helpu i lywio cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol.

# Adnoddau dŵr

## Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr

Yn 2020, cynhaliwyd chwe asesiad cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr gennym: roedd dau yn cydymffurfio a phedwar heb gydymffurfio. Canfuwyd pum achos o ddiffyg cydymffurfio ag amodau'r drwydded ar y pedwar safle – pedwar yn achosion o dorri amodau yn y categori CCS3 ac un yn achos o dorri amodau yn y categori CCS4. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant mewn cydymffurfiaeth yn 2021.

## Mynegai diogelwch cyflenwad

Mae'r mynegai diogelwch cyflenwad yn mesur i ba raddau y gall y cwmni sicrhau darpariaeth ei lefelau gwasanaeth pan geir cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr (e.e. gwaharddiadau defnyddio dros dro) os oedd y flwyddyn flaenorol yn un sych.100 oedd sgôr mynegai diogelwch cyflenwad Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2020/21.

## Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a sychder. Caiff y rhain eu cyhoeddi bob pum mlynedd.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau rheoli adnoddau dŵr Hafren Dyfrdwy, edrychwch ar ei wefan: www.hdcymru.co.uk/about-us/plan-and-strategy/water-resource-planning/water-resource-management-plan

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- Cynllunio rheoli adnoddau dŵr: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning?lang=cy
- Sychder: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/drought-planning-and-management/?lang=cy

## Gollyngiadau a defnydd o ddŵr

Gwnaeth Hafren Dyfrdwy adrodd yn ei adolygiad blynyddol ar gyfer 2020/21 mai'r defnydd cyffredinol y pen, sef faint o ddŵr y mae pob unigolyn yn ei ddefnyddio, oedd 153 litr y pen pob diwrnod, sef cynnydd o 10.3 litr y pen pob diwrnod o'r cyfartaledd blynyddol blaenorol a adroddwyd, a oedd yn 142.7 litr y pen pob diwrnod. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf yn sgil profi cyfnodau o alw mawr yn ystod cyfyngiadau y pandemig a'r cyfarwyddyd i aros gartref.

Rydym yn disgwyl i'r cwmni barhau i weithio ac ymgysylltu â grwpiau effeithlonrwydd dŵr Cymru i wella effeithlonrwydd dŵr yn y cartref a busnesau, er mwyn sicrhau bod digon o ddŵr ar gael yn yr amgylchedd ac ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y boblogaeth ac yn sgil effeithiau’r newid yn yr hinsawdd.

Cyfanswm y gollyngiadau gan y cwmni oedd 12.23 megalitr y dydd (Ml/d) ar gyfer 2020/21, sef gostyngiad o 0.72 Ml/d o'r 12.95 Ml/d a adroddwyd ar gyfer 2019/20. Trwy'r cyfnod cyfredol hwn o Gynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7), rydym yn disgwyl i'r cwmni barhau i leihau gollyngiadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ymrwymiad Cynllun Rheoli Adnodau Dŵr 2019 o 11.96 Ml/d erbyn 2025/26.Byddem yn annog y cwmni i barhau i archwilio ffyrdd newydd o ganfod gollyngiadau a'r potensial ar gyfer defnyddio Cronfa Arloesi Ofwat.

Rydym yn gweithio gydag Ofwat i gyhoeddi amrywiaeth eang o ddata cwmnïau dŵr, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd o ddŵr, a bydd y data hyn ar gael yn **discoverwater.co.uk**

# Gwaith rheoliadol arall

## Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae Hafren Dyfrdwy wedi cwblhau 100% o'r allbynnau disgwyliedig ar gyfer Blwyddyn 1 a nodwyd yn ei Gynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) ar gyfer y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol trwy gwblhau dau o'r cynlluniau fel y bwriadwyd. Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau ansawdd dŵr. Byddwn yn parhau i weithio gyda Hafren Dyfrdwy i sicrhau bod ei raglen ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau 7 yn cael ei chyflenwi erbyn 2025.

## **Gorfodi** (uwch na rhybudd)

Ni wnaethom gymryd unrhyw gamau gorfodi yn uwch na rhybudd yn erbyn Hafren Dyfrdwy yn 2020.

## Diogelwch cronfeydd dŵr

Ar ddiwedd 2020, roedd Hafren Dyfrdwy yn rheoli 15 o gyforgronfeydd dŵr mawr â chapasiti uwch sy'n fwy na 10,000$m^3$, yr ydym yn eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Diben y ddeddf hon yw sicrhau bod camau gweithredu sylfaenol yn cael eu gweithredu er mwyn atal dŵr rhag gollwng allan o reolaeth ac arwain at lifogydd mewn cymunedau i lawr yr afon. Mae'r camau hyn yn cynnwys penodi panel o beirianwyr cronfeydd dŵr arbenigol a gweithredu'n gyflym ar eu hargymhellion.

Mae'n rhaid i gronfeydd dŵr sydd wedi'u dynodi fel cronfa ddŵr uchel ei risg fod yn destun archwiliadau statudol cyfnodol a gweithredu'r argymhellion a wneir gan beiriannydd archwilio annibynnol. Rhaid i'r cronfeydd dŵr hyn hefyd gael eu goruchwylio gan beiriannydd sifil cymwys ar bob adeg, a rhaid cadw cofnodion o'r brif wybodaeth a gweithgareddau monitro.

Mae lefelau cydymffurfio Hafren Dyfrdwy wedi aros yn uchel. O 2021 ymlaen, byddwn yn adrodd metrigau manylach ar ddiogelwch cronfeydd dŵr er mwyn dangos y lefel o gydymffurfio â'n holl ddangosyddion diogelwch allweddol o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr, sydd fel a ganlyn:

- (a) Penodi peiriannydd adeiladu neu beiriannydd goruchwylio
- (b) Penodi peiriannydd archwilio
- (c) Cwblhau mesurau i'w cyflwyno er budd diogelwch o fewn amserlenni statudol

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o ddiogelwch cronfeydd ddŵr gan DEFRA yn ddiweddar ac mae wedi'i gyhoeddi. Mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu'n sylweddol ar gyfer Lloegr, yn dilyn y digwyddiad mawr yng nghronfa ddŵr Toddbrook yn Whaley Bridge, ond mae'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr yn ddeddf sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr a chredwn fod yr adroddiad yn berthnasol i'w ystyried yng Nghymru. Mae amrywiaeth eang o argymhellion

sy'n codi o'r adroddiad ac maent yn gymhleth. Mae Hafren Dyfrdwy yn aelod o'n gweithgor a fydd yn sicrhau gweithrediad yr argymhellion sy'n berthnasol i Gymru.

## Rheoli perygl llifogydd

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, ac mae dyletswydd arnynt i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru.

Bob ychydig o flynyddoedd, rydym yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut caiff perygl llifogydd ac erydu arfordirol eu rheoli ledled Cymru ac ar y gweithgareddau sydd ar waith i godi ymwybyddiaeth y rhai hynny sydd mewn perygl a chynyddu eu cydnerthedd. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys felly Hafren Dyfrdwy. Disgwylir yr adroddiad nesaf ym mis Hydref 2022 (dwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru) a bob dwy flynedd ar ôl hynny.

# Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2021

Yn 2021, rydym yn disgwyl y bydd Hafren Dyfrdwy yn gwneud y canlynol:

- cynnal 100% o hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd
- parhau i berfformio'n dda o safbwynt digwyddiadau llygredd difrifol heb gael unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol
- cydymffurfio 100% â therfynau rhifol ar gyfer gollyngiadau dŵr
- parhau i wella cydymffurfiaeth ag amodau disgrifiadol yng ngweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr
- cynnal sgôr y mynegai diogelwch cyflenwad o 100
- parhau i gyflawni cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau erbyn y dyddiad cau

Ac rydym yn disgwyl y bydd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn gwella perfformiad:

- lleihau nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o gael dim digwyddiadau
- gwella cydymffurfiaeth ag amodau trwyddedau adnoddau dŵr.

# Atodiad 1

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy ar 1 Gorffennaf 2018 ond rydym yn defnyddio data yn yr adroddiad hwn sy'n dyddio nôl i 2015.

Ar gyfer data ar ddigwyddiadau a hunanadrodd, data cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr a data cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr a fanylir yn y testun a'r graffiau yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r ffynonellau data canlynol:

- Ar gyfer **2015**, **2016** a **2017**: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent yng Nghymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy

- Ar gyfer **2018**, gwnaethom gyfuno dau gyfnod (cyn ffurfio Hafren Dyfrdwy ar 1 Gorffennaf 2018 ac ar ôl ei ffurfio):

    - O 1 Ionawr 2018 hyd at 30 Mehefin 2018: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent yng Nghymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy

    - O 1 Gorffennaf 2018 hyd at 31 Rhagfyr 2018: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent Water yng Nghymru, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy (gan y cafodd rhai amrywiadau trwydded eu cwblhau ar ôl 1 Gorffennaf) a Hafren Dyfrdwy

- Ar gyfer 2019 a 2020, gwnaethom ddefnyddio data gan Hafren Dyfrdwy yn unig.